Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 25ain Medi 2012

Presennol: A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, A. Thomas, G.C. Jones, J.A. Edwards, G. Parry, J. Roberts, B. Jones, I. Bebb, E. Jones
Anwen Le Cras (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: E. Parry, H. Huws. Cynghorydd Sirol J. Evans

2. Datganiadau Diddordeb: Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Materion y Cyngor Sir
Nodwyd bod y Comisiynwyr yn tynnu allan o Ynys Môn a bod pwerau yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r cynghorwyr.
Dim gwybodaeth bellach ar gau cartrefi henoed.
Tîm Rheoli canolig wedi'i sefydlu.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 31ain Gorffennaf 2012
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.1. Gwaith atgyweirio'r maes aml bwrpas a glanhau'r offer wedi'i gwblhau. Y Clerc i adrodd yn ôl i Cyfran Deg.
5.2. To Sied/Pafiliwn - Gwyndaf Pritchard heb ymgymryd â'r gwaith. Gofyn i Andre Le Cras edrych arno.
5.3. Llwybr beicio - Swyddog o'r Cyngor Sir wedi bod y mesur ar gyfer gosod ffens.
5.4. Bil Dwr Clwb Bowlio - Derbyniwyd llythyr gan gwmni dwr Cymru yn hysbysebu'r clwb bowlio nad ellir cael gostyngiad yn y pris oherwydd bod gollyngiad yn y sustem. Bydd rhaid datrys y broblem cyn gellir edrych ar y defnydd eto.
5.5. Dogfennau'r Cyngor Bro - Y Cyn Clerc wedi cysylltu i ddweud ei fod am drosglwyddo'r dogfennau cyn diwedd y mis. Cynigwyd gan I. Bebb ac eilwyd gan G. Parry yrru llythyr cyfreithiwr ato os na fydd wedi trosglwyddo'r dogfennau.
5.6. Derbyniwyd amcan bris gan gwmni R.G. Hire am wneud gwaith i ddatrys y broblem dwr yn sefyll yn y Gors. Pwyllgor Cyllid i edrych ar y gyllideb ac adrodd y ol i'r Cyngor Bro.

6. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 11eg Medi 2012
Cynigwyd gan A. Jones ac eilwyd gan J.A. Edwards. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi
7.1. Cynlluniau Gwella Pentrefi - nodwyd na fydd yn bosib adeiladu arwyddion y ddwy ochr i'r pentref fel y cytunwyd eisoes. Swyddogion o'r Cyngor Sir yn edrych ar beth fydd yn bosib ac am gysylltu gyda syniadau newydd.

7.2. Cynlluniau arbed parcio Ffordd Caergybi - derbyniwyd 3 opsiwn gan y Cyngor Sir. Cafwyd pleidlais ar ba opsiwn oedd y mwyaf ffafriol. Opsiwn 1 - 6 pleidlais; Opsiwn 2 - 2 bleidlais; opsiwn 3 -1 pleidlais.
Cytunwyd i awgrymu fod y Cyngor sir yn symud ymlaen gydag opsiwn 1.
Nodwyd bydd hefyd cais yn cael ei wneud am linellau melyn ger St. Tysilio a Carreg y Gad.

7.3. Gôr dyfiant - nodwyd bod angen torri gwair o amgylch maes parcio Ty'n Rhos a bod budleia yn tyfu'n fawr allan o wal y Neuadd Goffa ac yn y gwely blodau ger y toiledau. Y Clerc i ofyn i Ieuan G. Jones i wneud y gwaith.

7.4. Safle Tŷ Mawr - y Clerc wedi derbyn manylion am y tir sydd ar werth, sef 2.64 acer. Wedi methu dod o hyd i wybodaeth am safle sydd yn eiddo Llywodraeth Cymru.

7.5. Angen cael bin mawr i'r Gors. Y Clerc i ofyn am bris gan y Cyngor Sir.

9. Materion yn codi
Dim materion yn codi

10. Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 18fed Medi 2012
Cynigwyd gan I. Bebb ac eilwyd gan J. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

11. Materion yn codi
11.1 Adolygu ffioedd byrddau snwcer - H. Roberts, Cadeirydd y Clwb Snwcer yn derbyn bod angen codi'r ffioedd. Cyfarfod Blynyddol y Clwb Snwcer i gymryd lle 25ain Hydref.

11.2 Pwyllgor Llywio - mae angen ffurfioli'r Pwyllgor a chreu cyfansoddiad. Parhau i godi arian ar gyfer yr adeilad newydd.

12. Ceisiadau Cynllunio
31C398 Llyswen, 11 Y Garnedd - cais i godi porch newydd - dim sylw.

13. Awdit o Gyfrifon 2011/12
Cyflwynwyd adroddiad yr archwilwyr allanol UHY Hacker Young. Nid oedd unrhyw faterion angen sylw. Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan G. C. Jones, derbyniwyd yr adroddiad.

14. Cyfrifon Mis Gorffennaf 2012
Cyflwynwyd taenlen taliadau a derbyniadau mis Awst a Medi a gwariant yn erbyn y gyllideb.
Derbyniwyd y cyfrifon fel rhai cywir a chytunwyd i'r taliadau.

15. Gohebiaeth
1. Anglesey Tourism - er gwybodaeth
2. Derek Vaughan MEP - cynhadledd Horizon 2020
3. CSYM - cyfarfod cyswllt - J. Roberts i roi gwybod i'r Clerc os yw'n gallu mynychu.
4. North Wales Fencing - pris wedi'i dderbyn ar gyfer codi ffens newydd ar derfyn y Clwb Bowlio a Trem Eryri. Nodwyd bod y Cyngor Sir yn fodlon talu hanner y gost. Cynllun gwella gan y Cyngor Sir, efallai bod modd i'r tenantiaid wneud cais am yr arian i godi'r ffens.
5. Seminar Chwarae Cymunedol 17eg Tachwedd. B. Jones a'r Clerc i fynychu.

16. Unrhyw Fater Arall
1. Yn dilyn erthygl yn y papur newydd am yr ymdrech i godi arian i adeiladu neuadd goffa newydd erbyn 2014 nodwyd nad oes balchder yn y ffaith bod 2014 yn 100 mlwyddiant y rhyfel byd cyntaf. O barch mae'r syniad o gael neuadd newydd erbyn y dyddiad yma.
2. Dosbarthwyd copïau o adroddiad J. Roberts ar gyfarfod Un Llais Cymru. Diolchwyd i J. Roberts.
3. Mr Gwyn Ifan Owen wedi mynegi pryder ynglŷn â'r tŷ newydd sydd wedi'i godi dros ffordd i Frondeg. Nodwyd bod y datblygwyr i wneud gwelliannau i'r groesffordd wrth ddatblygu'r safle. Cadw golwg ar y sefyllfa.
4. Sul y Cofio - Y Cadeirydd wedi bod mewn cyswllt gyda Jim Clarke ac Emlyn Williams i drefnu'r gwasanaeth. Y Clerc wedi cysylltu â'r biwglwr.
5. Scouts wedi cychwyn yn Neuadd Eglwys Santes Fair.

Dyddiad cyfarfod nesaf nos Fawrth 30ain Hydref 2012 am 7.00yh

Arwyddwyd .....(Cadeirydd) .....Dyddiad